COFNODION CYFARFOD Y PWYLLGOR LLYWODRAETHU AC ARCHWILIO A GYNHALIWYD O BELL TRWY TIMAU MICROSOFT , DYDD IAU, 10 TACHWEDD 2022, AM 10:00

Presennol

Y Cynghorydd Mr G Chapman – Cadeirydd

| | | | |
|---|---|---|---|
| Mr B Olorunnisola | Ms S Davies | Mr A Bagley | S J Griffiths |
| D M Hughes | M L Hughes | A Wathan | A Williams |
| RM Granville | S J Bletsoe | C Davies | |

Swyddogion:

| | |
|---|---|
| Rachel Freitag | Archwilio Cymru |
| Carys Lord | Prif Swyddog - Cyllid, Perfformiad a Newid |
| Deborah Exton | Dirprwy Bennaeth Cyllid dros dro |
| Julie Ellams | Swyddog Gwasanaethau Democrataidd - Pwyllgorau |
| Michael Pitman | Swyddog Gwasanaethau Democrataidd – Pwyllgorau |
| Nigel Smith | Rheolwr Cyllid |
| Eilish Thomas | Rheolwr Cyllid – Rheoli Ariannol a Chau |
| Joan Davies | Dirprwy Pennaeth Gwasanaeth Archwilio Rhanbarthol |
| Alex Rawlin | Rheolwr Polisi Corfforaethol a Materion Cyhoeddus |
| Sara Davies | Graduate - Policy, Performance & Public Affairs |
| Jackie Davies | Pennaeth Gofal Cymdeithasol Oedolion |

36. YMDDIHEURIADAU AM ABSENOLDEB

Dim

37. DATGANIADAU O FUDDIANT

Dim

38. CYMERADWYAETH COFNODION

Eglurodd A Bagley ei fod wedi anfon ei ymddiheuriad ond dim ond am yr awr gyntaf a'i fod yn bresennol ar gyfer eitem Archwiliad Blynyddol Ffurflen Adrodd Porthladd Porthcawl 2021-22 ac ymlaen.

PENDERFYNWYD: Cymeradwyo cofnodion 13/10/2022 fel cofnod gwir a chywir yn amodol ar nodyn fod A Bagley yn absennol am awr gyntaf y cyfarfod ac yn bresennol am ran olaf y cyfarfod.

39. COFNOD GWEITHREDU'R PWYLLGOR LLYWODRAETHU AC ARCHWILIO

Amlinellodd y Cadeirydd yr Adroddiad oedd yn rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf i'r Aelodau am Gofnod Gweithredu'r Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio. Roedd y cofnod gweithredu ynghlwm yn Atodiad A yr adroddiad.

PENDERFYNWYD: Bod y Pwyllgor yn nodi'r Cofnod Gweithredu.

## 40. TRACIWR RHEOLEIDDIO

Cyflwynodd Rheolwr Polisi Corfforaethol a Materion Cyhoeddus adroddiad yn tynnu sylw'r Pwyllgor at faterion a godwyd gan Archwilio Cymru ynghylch monitro, rhannu a defnyddio adroddiadau rheoleiddwyr, ac argymhellion yn codi o'r adroddiadau ac yn cynnig atebion i wella prosesau.

Eglurodd Rheolwr Polisi Corfforaethol a Materion Cyhoeddus fod crynodeb lefel uchel o weithgarwch rheoleiddio arfaethedig Archwilio Cymru wedi ei gynnwys yn systematig yn y Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio (GAC). Cynigiwyd bod hwn yn cael ei ymestyn i gynnwys yr holl archwiliadau, adolygiadau ac arolygiadau a gwblhawyd, a'r argymhellion penodol a wnaed ganddynt ar gyfer y Cyngor. Byddai hyn yn ffurfio traciwr rheoleiddio ar gyfer Cyngor Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr a gellid ei ymestyn hefyd i gynnwys yr holl reoleiddwyr (o ran eu harolygiadau eang, corfforaethol neu wasanaeth cyfan), gan gynnwys Estyn, Arolygiaeth Gofal Cymru (AGC) ac Arolygiaethau EM ar gyfer y Gwasanaeth Prawf a Charchardai. Cynigiwyd eu bod yn canolbwyntio'n bennaf ar y ddwy flwyddyn ariannol flaenorol, 2020/21 a 2021/22, yn ychwanegu arolygiadau pellach wrth iddynt gael eu cyhoeddi a thynnu arolygiadau allan yn unig pan fyddai'r holl argymhellion yn eu herbyn wedi cael eu cau. Ychwanegodd nad oedd bwriad i gynnwys arolygiadau gwasanaethau rheoleiddiedig e.e. arolygiadau AGC o gartrefi preswyl, lle roedd nifer o arolygiadau bob blwyddyn, gyda nifer o argymhellion yn erbyn pob un. Gyda golwg ar yr arolygiadau hyn, roedd y cyfrifoldeb yn fwy amlwg ar y Pwyllgor Trosolwg a Chraffu Pwnc priodol. Cynigiwyd bod y traciwr rheoleiddio hwn yn cael ei ystyried yn fanwl yn y Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio ddwywaith y flwyddyn, ym mis Ionawr a mis Gorffennaf, i gwmpasu cynnydd hanner cyntaf y flwyddyn, ac wedyn yr ail hanner.

Eglurodd Rheolwr Polisi Corfforaethol a Materion Cyhoeddus sut y byddai'r traciwr rheoleiddio yn gweithio i sicrhau goruchwyliaeth gorfforaethol a gwleidyddol. Pe câi ei wneud yn effeithiol, byddai hefyd yn arwain at ddealltwriaeth gliriach o ble roedd mewnbwn rheoleiddwyr wedi arwain at newid a gwelliant mewn gwasanaethau.

Gofynnodd Aelod a fyddai modd, o ran y camau gweithredu gofynnol, darparu syniad o amserlen i'r chwarter agosaf. Atebodd Rheolwr Polisi Corfforaethol a Materion Cyhoeddus pan fyddai rhagor o wybodaeth yn cael ei darparu ym mis Ionawr, y câi'r bylchau hyn eu llenwi.

Cefnogodd Aelod y cynnig i ganolbwyntio ar y 2 flynedd ariannol flaenorol ac ychwanegodd y dylai'r Pwyllgor ganolbwyntio nid yn unig ar y rhan archwilio ond hefyd ar y risg.

Eglurodd Aelod ei fod yn meddwl bod hwn yn syniad da. Fodd bynnag, hoffai weld adran yn yr adroddiad ynglŷn â chyfathrebu a thryloywder. Gofynnodd hefyd sut y byddai hyn yn cael ei gyfleu'n briodol i'r Aelodau a'r trigolion. Atebodd Rheolwr Polisi Corfforaethol a Materion Cyhoeddus fod hwn yn syniad da ac y byddai'n ystyried y ffordd orau o'i gyflawni.

Croesawodd Aelod yr adroddiad ond cododd bryderon ynghylch sut y byddai'r Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio yn cael ei hysbysu am gamau gweithredu blaenoriaeth uchel neu gritigol ac a oedd adroddiad chwe mis yn rhy hir. Atebodd Rheolwr Polisi Corfforaethol a Materion Cyhoeddus mai'r syniad oedd y byddai'r Pwyllgorau Trosolwg a Chraffu yn gweithio ar yr argymhellion a'r adroddiadau archwilio yn fwy rheolaidd. Byddai'r traciwr rheoleiddio yn mynd i'r CMB yn fwy rheolaidd ac y gallai ddod i'r Pwyllgor hwn bob chwarter neu gallent gynnwys rhywbeth ar y traciwr i amlygu risg yn fwy effeithiol. Gallai hyn fod yn fater i'w drafod ymhellach yn nes ymlaen.

Eglurodd Aelod (Cadeirydd Pwyllgor Trosolwg a Chraffu Pwnc 1) ei fod yn credu y byddai hyn yn cael ei godi ar flaenraglenni gwaith y gwahanol bwyllgorau craffu. Cyfeiriodd at y datganiad a wnaed gan Reolwr Polisi Corfforaethol a Materion Cyhoeddus mai dim ond pan fyddai materion yn cau y byddai arolygiadau'n cael eu dileu. Gofynnodd a oedd hynny'n golygu y byddai'r Pwyllgor Trosolwg a Chraffu Corfforaethol yn adolygu'r Adroddiad Alldro ar gyfer 21/22 ynteu, oherwydd ei fod wedi cau, na fyddai'n cael ei adolygu eto. Llongyfarchodd y swyddog am yr adroddiad agored a gonest wrth asesu lle roeddem fel sefydliad. Atebodd Rheolwr Polisi Corfforaethol a Materion Cyhoeddus y dylai'r pwyllgorau craffu fod yn hapus gyda hyn yn cael ei gau ac felly na fyddai hi'n cynnig craffu ychwanegol oni bai bod y sefyllfa'n gwaethygu neu'n mynd yn ôl.

Dywedodd Aelod ei fod yn croesawu’r adroddiad agored a thryloyw yn llwyr. Roedd ychydig yn bryderus bod hyn wedi dod o ganlyniad i beidio â gwneud rhywbeth yn y gorffennol. Fodd bynnag, wrth symud ymlaen, roedd yr adroddiad hwn yn gadarnhaol. Gofynnodd am sicrwydd llawn y byddai rhan o'r awdurdod yn craffu ar bob agwedd fel na fyddai dim yn cael ei ollwng na’i fethu. Ychwanegodd y dylent geisio bod yn well nag awdurdodau eraill, nid bod cystal â hwy. Cyfeiriodd at benderfyniad diweddar oedd wedi ei alw i mewn, a arweiniodd at awr a hanner o graffu cadarnhaol ar ran y trigolion. Atebodd Rheolwr Polisi Corfforaethol a Materion Cyhoeddus fod y pwynt yn ymwneud â'r pwyllgorau craffu wedi'i wneud yn dda a bod angen ei wneud yn rhwydd. O ran arfer da, cytunai fod arnynt eisiau bod ar y blaen nid ychydig ar ei hôl hi ond bod angen iddynt fod yn cyd-redeg cyn y byddent mewn sefyllfa i oddiweddyd.

Cyfeiriodd y Cadeirydd at baragraff 3.3 yr adroddiad, bod disgwyl i Bwyllgorau Llywodraethu ac Archwilio ystyried adroddiadau ac argymhellion perthnasol gan gyrff adolygu allanol, a chael sicrwydd ynghylch y trefniadau ar gyfer eu goruchwylio a'u cyflawni a bod hyn wedi cael ei gynnwys yng Nghylch Gorchwyl y Pwyllgor. Roedd yn bryderus fod adroddiadau rheoleiddio yn cael eu hystyried gan bwyllgorau craffu ar sail ad hoc yn hytrach nag fel eitem reolaidd ond nodai y byddai'r pwyllgorau craffu yn edrych ar hyn wrth symud ymlaen. Roedd ar y Pwyllgor angen sicrwydd yr ymdrinnid â hwy gan mai hwy oedd yn gyfrifol am oruchwylio mecanwaith sicrwydd yr awdurdod yn gyffredinol.

Roedd y Cadeirydd yn deall y materion yn ymwneud â'r 2 flynedd ddiwethaf ond roedd ganddo rai pryderon y gallai materion a godwyd ac yr ymdriniwyd â hwy dan Adroddiadau Arolygu blaenorol fynd ar goll. Roedd yn dymuno cael sicrwydd nad oedd yna unrhyw fylchau amlwg y gellid eu beirniadu am beidio â delio â hwy. Ychwanegodd, pan fyddai mater wedi ei atgyfeirio, y dylid rhoi digon o amser i ganiatáu i'r mater gael ei drin gan swyddogion a'r tîm rheoli. Roedd angen i'r camau gweithredu gofynnol fod yn ddoeth ac yn amserol. Cytunai Rheolwr Polisi Corfforaethol a Materion Cyhoeddus â'r pwyntiau a godwyd a dywedodd y byddai'n mynd i'r afael â'r ddau brif bwynt, sef mecanwaith/sicrwydd ar gyfer atgyfeirio ar gyfer craffu a mater y ddwy flynedd. Roeddent wedi edrych ymhellach yn ôl a gallent roi argymhellion o Arolygiad Estyn yn 2019 yn ôl i mewn pe bai angen.

Cytunai’r Aelod (Cadeirydd Pwyllgor Trosolwg a Chraffu Pwnc 1) â'r holl bwyntiau a wnaed. Eglurodd ei fod, fel cadeirydd y Pwyllgor Trosolwg a Chraffu Corfforaethol, yn goruchwylio holl raglenni gwaith y pwyllgorau craffu. Cyflwynai adroddiad i'r Cabinet ar weithgarwch craffu a gallai adrodd yn ôl i'r pwyllgor hwn hefyd i roi sicrwydd pe bai angen. Pe bai adroddiad Estyn 2019 yn dod yn ôl, yna gallai ei SOSC ei ystyried.

Cydnabu Aelod y pwyntiau a godwyd ond roedd hwn yn fater o adnoddau ar adeg pan oedd yr awdurdod eisoes dan bwysau. Credai mai proses raddol ddylai hon fod i ddal i fyny a'i rhannu'n gamau. Atebodd y Cadeirydd ei fod yn gwerthfawrogi hynny ond os oedd unrhyw argymhellion gan Reoleiddwyr Statudol nad oeddent wedi mynd i'r afael â

hwy, yna bod angen adrodd amdanynt yn rhywle. Roedd yn deall y mater capasiti ac na fyddai'n mynd yn haws. Diolchodd i Reolwr Polisi Corfforaethol a Materion Cyhoeddus a'i thîm am yr adroddiad.

PENDERFYNWYD: Bod y Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio wedi ystyried a chymeradwyo'r broses a'r trefniadau arfaethedig ar gyfer traciwr rheoleiddio ar gyfer CBS Pen-y-bont ar Ogwr ac wedi ychwanegu bod y Pwyllgor Craffu i adrodd yn ôl i'r Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio mewn modd amserol.

41. RHEOLI'R TRYSORLYS - ADRODDIAD HANNER BLWYDDYN 2022-23

Cyflwynodd y Rheolwr Grŵp – Prif Gyfrifydd adroddiad yn rhoi diweddariad i'r Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio ar yr adolygiad canol blwyddyn a'r sefyllfa hanner blwyddyn ar gyfer gweithgareddau rheoli'r trysorlys a dangosyddion rheolaeth y trysorlys ar gyfer 2022-23, gan dynnu sylw at gydymffurfio â pholisïau ac arferion y Cyngor. Câi'r adroddiad ei chyflwyno i'r Cabinet a'r Cyngor.

Rhoddodd y Rheolwr Grŵp – Prif Gyfrifydd y cefndir i'r adroddiad ac eglurodd fod y Cyngor wedi cydymffurfio â'i ofynion deddfwriaethol a rheoleiddiol yn ystod y cyfnod 1 Ebrill i 30 Medi 2022. Amlinellodd weithgareddau rheoli'r trysorlys ar gyfer Ebrill 2022 – Medi 2022 a'r sefyllfa bresennol fel y disgrifiwyd yn yr adroddiad. Roedd y gweithgareddau a'r dangosyddion allweddol wedi eu cynnwys yn yr atodiadau.

Cyfeiriodd Aelod at yr angen i'r adroddiad fod yn dryloyw, yn ddarllenadwy a hygyrch i'r holl drigolion. Derbyniai fod hwn yn arfer cyfrifyddu safonol yn y ffordd y'i gosodwyd ond credai y byddai trigolion heb gefndir ariannol yn cael trafferth i'w ddeall. Dylid ei ategu â mwy o ddatganiadau mewn Saesneg clir ynghylch y sefyllfa. Roedd hwn yn bwnc llosg ar hyn o bryd ac ni allai trigolion ddeall pam yr oedd gan yr awdurdod gymaint o arian yn y banc. Gofynnodd sut y gellid ei wneud yn fwy dealladwy ac o fewn cyrraedd trigolion. Atebodd y Rheolwr Grŵp - Prif Gyfrifydd y byddai'n mynd â'r mater hwn i ffwrdd ac yn ystyried beth ellid ei wneud cyn yr adroddiad nesaf.

Cyfeiriodd Aelod at fenthyciadau LOBO a'r achos proffil uchel a oedd yn mynd rhagddo ar hyn o bryd gydag awdurdod lleol yr oedd CBS Pen-y-bont ar Ogwr wedi rhoi benthyg arian iddo. Dymunai ddeall yn well y broses a achosodd i'r sefyllfa honno godi. Ar hyn o bryd, roedd 3 benthyciad yn ddyledus gan yr awdurdod hwnnw. Roedd yna broses yr oeddem wedi'i mabwysiadu ar gyfer asesu risg benthyciadau. Roedd ef ar ddeall bod y cynghorwr wedi rhoi cyngor i bob awdurdod lleol i beidio â rhoi benthyg rhagor o arian i'r awdurdod hwn oherwydd y sefyllfa ariannol yr oedd ynddi. Ym mis Hydref, cytunwyd i roi benthyg rhagor o arian i'r awdurdod ar ôl derbyn y cyngor hwn. O fewn cylch gorchwyl y pwyllgor hwn, yr oedd ef yn gofyn am arweiniad, neu unrhyw newidiadau yr oedd angen eu gwneud i arferion y cytunwyd arnynt, sef pan fyddai cyngor yn cael ei dderbyn gan y cynghorwr swyddogol i beidio â rhoi benthyg arian i awdurdod, na fyddai unrhyw arian pellach yn mynd allan ar ôl derbyn y cyngor hwnnw. Eglurodd y Rheolwr Grŵp - Prif Gyfrifydd fod y benthyciadau LOBO yn hollol wahanol ac nad benthyciadau i awdurdodau lleol eraill oeddent, ond bod yr achos yr oedd yr aelod yn cyfeirio ato yn achos o fenthyca rhwng awdurdodau i awdurdodau lleol eraill. Roedd benthyca i awdurdodau lleol eraill yn arfer sefydledig, oedd yn darparu lefel uchel o ddiogelwch a lefel isel o risg. Roedd Strategaeth Rheoli'r Trysorlys, a gyflwynwyd ar ffurf ddrafft i'r pwyllgor hwn ym mis Ionawr 2022 ac a gymeradwywyd gan y Cyngor llawn ym mis Chwefror 2022, yn nodi dewisiadau a therfynau benthyca. Gallent fenthyca hyd at uchafswm o £12 miliwn fesul awdurdod am hyd at gyfnod o 25 mlynedd i gyd. Yn ymarferol, yr uchafswm y tueddir ei roi ar fenthyg yw tua £8 miliwn i unrhyw awdurdod unigol, er y byddai'r strategaeth yn caniatáu iddynt fenthyca hyd at £12 miliwn, a hynny er mwyn sicrhau eu bod yn cydbwyso risg ar draws gwahanol wrthbartïon neu

ddewisiadau benthyca. Roedd dau gytundeb yn weddill gyda'r awdurdod neilltuol hwnnw, y cytunwyd arnynt cyn derbyn y cyngor gan Gynghorwyr Rheoli'r Trysorlys. Pan oeddent wedi cytuno ar gontract, roeddent yn rhwymedig i'r contract hwnnw. Roeddent wedi gofyn am arweiniad pellach a’r cyngor oedd, gan eu bod eisoes wedi ymrwymo i wneud y benthyciad hwnnw, y byddai peidio â pharhau ag ef yn risg i’w henw da o fewn y sector, am y byddent wedi mynd yn ôl ar gontract y cytunwyd arno. Nid oedd ef erioed wedi profi diffyg ad-dalu unrhyw fenthyciad i awdurdod lleol ac nid oedd yn gwybod am unrhyw awdurdod lleol oedd erioed wedi methu â gwneud y taliadau. Roedd y benthyciad yn cynrychioli risg hynod o isel a'r disgwyliad oedd y câi ei ad-dalu ar y dyddiad dyledus gyda'r llog oedd yn ddyledus. Ceid archwiliadau rheolaidd o weithgareddau rheoli'r trysorlys ac roedd yr Archwilwyr Allanol yn gwneud hynny fel rhan o'u Datganiad Cyfrifon Blynyddol. Daeth yr adolygiad Archwilio Mewnol diwethaf ym mis Chwefror 2020 i’r casgliad bod effeithiolrwydd yr amgylchedd rheoli mewnol yn cael ei ystyried yn gadarn. Felly, gellir derbyn sicrwydd sylweddol o ran rheoli risgiau. Cyn gynted ag y cawsant y cyngor, fe wnaethant roi'r gorau i unrhyw fenthyca pellach yn unol â chyngor y cynghorwyr.

Gofynnodd yr Aelod gan bwy y gofynnwyd am gyngor ychwanegol ac a fyddai yna unrhyw gosbau ariannol pe baent yn gwrthod anrhydeddu’r contract. Atebodd y Rheolwr Grŵp - Prif Gyfrifydd y gallai fod cosb pe baent yn tynnu allan o'r contract. Atebodd yr Aelod fod y sefyllfa o fewn y sefydliad yr oeddent wedi rhoi benthyg iddo mor enbyd fel eu bod yn wynebu risg i’w henw da am roi benthyg yr arian iddo. Roedd ei bryder yn ymwneud â’r egwyddor o risg isel, enillion isel, benthyca rhwng awdurdodau fel egwyddor a sut y gallent ymateb yn gyflymach i amgylchiadau oedd yn newid yn hytrach na manylion penodol. Atebodd y Rheolwr Grŵp – Prif Gyfrifydd fod yna God Marchnad Arian Banc Lloegr yr oedd yn rhaid iddynt gydymffurfio ag ef a bod hwnnw’n dweud unwaith yr oedd bargen wedi cael ei gwneud, na ddylent dynnu'n ôl o'r fargen honno mewn gwirionedd.

Esboniodd y Cadeirydd eu bod angen sicrwydd bod y rhwystrau a’r gwrthbwysau perthnasol yn eu lle. Cafodd ei sicrhau gan bopeth a ddywedwyd a’u bod wedi gofyn am gyngor annibynnol. Roeddent wedi dilyn y Cod Ymarfer a rhoddwyd sicrwydd bod popeth yr oedd angen ei wneud wedi cael ei wneud.

Dywedodd y Prif Swyddog Cyllid, Perfformiad a Newid ei bod yn gobeithio bod Rheolwr y Grŵp – Prif Gyfrifydd wedi rhoi sicrwydd eu bod wedi gweithio o fewn y polisïau ac y byddai'r arian yn dod i mewn. Ychwanegodd fod awdurdodau lleol oedd ar sail sicr iawn yn ariannol hyd yn oed 6 i 12 mis yn ôl, yn mynd i gael trafferth yn y misoedd nesaf. Byddai angen iddynt ystyried hynny wrth adolygu'r rhan honno o Bolisi Rheoli'r Trysorlys ar gyfer y flwyddyn nesaf er mwyn diogelu'r awdurdod mewn amgylchedd oedd yn newid.

Gofynnodd Aelod am i'r Pwyllgor gael y wybodaeth ddiweddaraf am hyn hyd nes y byddai'r benthyciad wedi cael ei ad-dalu. Gofynnodd hefyd am ragor o wybodaeth ynghylch contract Arlingclose gan gynnwys gwerth y contract. Atebodd y Cadeirydd nad oedd o fewn cylch gorchwyl y Pwyllgor i ofyn am y manylion hynny. Atebodd y Rheolwr Grŵp – Prif Gyfrifydd ei fod wedi cynnwys yn yr adroddiad wybodaeth am yr holl wasanaethau a ddarparwyd a bod yswiriant hefyd ar gyfer yr awdurdod.

Gofynnodd Aelod a oedd yna naratif ar y proffil risg a chost benthyca fel yr addawyd yn y cyfarfod blaenorol. Atebodd y Rheolwr Grŵp – Prif Gyfrifydd fod cymhariaeth yn y tabl ar dudalen 34 o'r pecyn fel y trafodwyd o’r blaen. Cytunodd i adolygu'r drafodaeth yn y cyfarfod blaenorol ac adrodd yn ôl.

Cyfeiriodd Aelod at rai o'r ymatebion a dderbyniwyd ac anogodd swyddogion i feddwl y tu hwnt i'r polisïau presennol ac i gynllunio ar gyfer sefyllfaoedd eithafol ac i amddiffyn yn eu herbyn.

Dywedodd Aelod fod yr awdurdod hwn wedi colli arian yn y cwymp yng Ngwlad yr Iâ a bod dyletswydd ar yr awdurdod i ddiogelu lle y gallai. Atebodd y Prif Swyddog Cyllid, Perfformiad a Newid nad oedd hi o gwmpas ar adeg cwymp Gwlad yr Iâ ond nad oedd yr awdurdod wedi colli arian drwyddo ond eu bod wedi dysgu gwersi. Byddent yn adolygu'r polisi ac yn dysgu o faterion a oedd eisoes wedi digwydd yn ogystal ag edrych i'r dyfodol.

Cyfeiriodd Aelod at gynllunio gêm ar gyfer senarios eithafol ac y byddai hon yn dechneg ddefnyddiol i'r awdurdod.

Eglurodd y Prif Swyddog Cyllid, Perfformiad a Newid fod nodyn briffio ynghylch rheolaeth y trysorlys wedi cael ei anfon at yr aelodau. Roedd rhai wedi ymateb eu bod wedi ei ddeall am y tro cyntaf erioed yn eu hanes. Croesawai unrhyw sylwadau ar y nodyn gan ei fod yn ymwneud â maes yr oedd mwy a mwy o graffu arno, oedd yn ymdrin â gwerth miliynau o bunnau o arian. Gellid defnyddio hwn mewn adroddiadau yn y dyfodol ac wrth gyfathrebu â'r cyhoedd. Gofynnodd y Cadeirydd i'r nodyn gael ei ddosbarthu i'r aelodau annibynnol.

Ychwanegodd Aelod ei fod wedi gweld y ddogfen yn hynod ddefnyddiol a diolchodd i'r swyddogion am eu gwaith arni. Ychwanegodd y byddai'n ddefnyddiol pe bai mwy o wybodaeth yn cael ei darparu ynghylch pam na fyddai awdurdod lleol o reidrwydd yn benthyca i awdurdodau eraill i gael llog ar y buddsoddiad.

| | |
|---|---|
| PENDERFYNWYD: | Bod y Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio yn nodi gweithgareddau rheoli trysorlys y Cyngor ar gyfer 2022-23 am y cyfnod 1 Ebrill 2022 i 30 Medi 2022 a Dangosyddion Rheoli'r Trysorlys a ragwelid ar gyfer 2022-23. |

## 42. ADOLYGIAD HANNER BLWYDDYN O'R DATGANIAD LLYWODRAETHU BLYNYDDOL

Cyflwynodd y Prif Swyddog Cyllid, Perfformiad a Newid adroddiad yn rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf am y Cynllun Gweithredu oedd yn cyd-fynd â'r Datganiad Llywodraethu Blynyddol (DLlB) oedd wedi ei gynnwys yn Natganiad Cyfrifon Drafft 2021-22 yn erbyn y materion sylweddol a nodwyd a sut yr oeddent yn cael eu trin yn 2022-23. Roedd y Pwyllgor wedi ystyried y datganiad drafft yn ôl ym mis Gorffennaf ac roedd yn rhoi asesiad cyffredinol o'r trefniadau llywodraethu corfforaethol oedd yn eu lle ym Mhen-y-bont ar Ogwr. Cafodd cynnydd yn erbyn unrhyw gamau gweithredu ei fonitro fel yn y cynllun gweithredu yn atodiad B. Gofynnwyd i'r aelodau ystyried y cynllun gweithredu a'r cynnydd a wnaed erbyn diwedd mis Medi.

Roedd Aelod yn pryderu ynghylch pa mor hygyrch a darllenadwy oedd yr adroddiad. Roedd hon yn ddogfen ar gyfer y cyhoedd, a phobl y tu allan oedd ei phrif gynulleidfa, ac roedd ymhell o'r lle y dylai fod. Wrth gynhyrchu dogfennau cyhoeddus, dylid defnyddio gwirwyr darllenadwyedd. Roedd angen llawer o waith ar gyfathrebu ac roedd hwn yn fan cychwyn da. Roedd mewn PDF heb unrhyw ddolenni cyswllt ac roedd yn rhaid dod o hyd i'r dogfennau drwy chwilio ar Google. Roedd angen i'r dogfennau fod yn wirioneddol hygyrch i drigolion, yn hawdd eu cael ac yn cofleidio'r oes ddigidol a'r ffordd ddigidol o gyflwyno dogfennau, gan gynnwys gwybodeg. Atebodd y Prif Swyddog Cyllid, Perfformiad a Newid fod rhai materion yn dechnegol ac yn gysylltiedig â deddfwriaeth ond y dylent fod yn hygyrch er hynny ac y byddent yn mynd â'r sylwadau hyn i ffwrdd ac yn eu gweithredu yn y datganiad nesaf.

Diolchodd Aelod i'r swyddogion am ddogfen gynhwysfawr. Cyfeiriodd at dudalen 57 a gwaith Archwilio Cymru a'r Archwilydd Allanol a'r adroddiadau ond nad oedd gwybodaeth am yr hyn oedd yn cael ei wneud yn eu cylch. Nid oedd unrhyw wybodaeth am y materion hollbwysig, y rhai blaenoriaeth uchel, y rhai hwyr nac unrhyw beth i ddweud beth y dylent fod yn edrych arno. Roedd tudalen 61 yn cynnwys gwaith Archwilio Mewnol ac argymhellion yn cael eu derbyn ar wahanol adegau ond roedd hyn yn niwlog. Byddai'n fwy defnyddiol pe bai mwy o wybodaeth ar gael am y sefyllfa bresennol. Cytunodd y Prif Swyddog Cyllid, Perfformiad a Newid y byddai hyperddolenni i draciwr o fewn y ddogfen yn gymorth.

Roedd Aelod yn pryderu mai ychydig iawn o sôn a fu am Garbon Niwtral 2030. Roedd wedi disgwyl i hynny gael y lle blaenaf oll ac y byddai'n allweddol i'r ddogfen ei hun a sut y byddent yn cyflawni'r nod o fod yn niwtral o ran carbon. Gobeithiai y gallai'r adroddiad nesaf gynnwys adran sylweddol ynghylch ymrwymiadau gwyrdd. Eglurodd y Prif Swyddog Cyllid, Perfformiad a Newid fod hyn wedi ei godi ym mis Gorffennaf a'u bod wedi cytuno i'w gynnwys yn yr adroddiad nesaf.

Nododd Aelod gamgymeriad ar linell waelod y tabl ar dudalen 55 yr adroddiad. Y cyfanswm a hawliwyd oedd £16,510 nid £16,50.

Cyfeiriodd y Cadeirydd at hyperddolenni mewn dogfennau electronig a gwnaeth y pwynt nad oedd gan yr holl drigolion fynediad at gyfrifiaduron a bod rhaid cael ffordd iddynt hwythau gael mynediad at y dogfennau hyn. O ran diweddariadau cynnydd, roedd llawer o naratif heb amcanion pendant megis atebolrwydd ac amserlenni ac roedd angen mynd i'r afael â hyn. Dylai hyfforddiant aelodau fod ar gael i aelodau annibynnol o'r Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio a'r Pwyllgor Safonau. Dylid cynnal dadansoddiad o'r hyfforddiant ar gyfer yr aelodau annibynnol i weld a oedd angen hyfforddiant ychwanegol. Gofynnodd hefyd pryd y byddai cyfarfodydd hybrid yn eu lle ar gyfer y Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio. Atebodd y Prif Swyddog Cyllid, Perfformiad a Newid fod y sylw ynghylch amcanion doeth yn ymwneud â'r traciwr ac y gallent edrych ar hyn wrth adrodd yn ôl yn y dyfodol. O ran datblygu aelodau, gwahoddwyd Aelodau lleyg y pwyllgor hwn i'r sesiynau datblygu aelodau a gynhaliwyd mewn perthynas â'r Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio ond ni chawsant eu cylchredeg y tu hwnt i hynny. Cytunodd i fynd â'r mater yn ôl a gwneud yn siŵr bod holl aelodau'r pwyllgor yn cael mynediad at hyfforddiant priodol. Eglurodd y Swyddog Gwasanaethau Democrataidd fod problemau gyda'r system meicroffon yn y Siambr, ond bod hynny wedi'i ddatrys yn ddiweddar a'u bod yn gobeithio cynnal cyfarfodydd hybrid o'r wythnos ganlynol. Ychwanegodd y gallai cyfarfod nesaf y Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio gael ei gynnal yn hybrid yn y Siambr.

| | |
|---|---|
| PENDERFYNWYD: | Bod y Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio yn nodi Cynllun Gweithredu'r Datganiad Llywodraethu Blynyddol 2022-23 a'r cynnydd ar y camau gweithredu hyd at 30 Medi 2022 a'i fod wedi gofyn i swyddogion sicrhau bod fformat y ddogfen yn ddarllenadwy a dealladwy i fwy o bobl. |

## 43. ASESIAD RISG CORFFORAETHOL 2022-23

Eglurodd y Prif Swyddog Cyllid, Perfformiad a Newid fod yr Asesiad Risg Corfforaethol yn ddogfen a gyflwynir i'r Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio yn rheolaidd a'i bod yn amlinellu'r risgiau corfforaethol allweddol yr oedd y Cyngor yn eu hwynebu ar y pryd a hefyd y camau lliniaru a gymerwyd i geisio cyfyngu'r risgiau hynny. Fel ym mharagraff pedwar yr adroddiad, bu nifer o ddiweddariadau drwy'r Asesiad Risg Corfforaethol. Y rheswm am hynny oedd yr hinsawdd yr oedd yr awdurdod yn gweithio ynddo gyda gwasanaethau'n newid mor gyflym. Pan ystyriwyd hyn o'r blaen, cafwyd trafodaeth

ynglŷn â’r ffordd orau o gyflwyno'r materion yn yr asesiad risg. Cytunodd yr Aelodau y byddai plymio'n ddyfnach i un neu ddwy o'r risgiau ym mhob cyfarfod yn galluogi'r Aelodau i'w deall a hefyd i ofyn cwestiynau yn dilyn y drafodaeth honno. Y ddwy risg ar gyfer y cyfarfod hwn oedd bod y Cyngor yn medru gwneud penderfyniadau cadarn yn y tymor canolig i’r tymor hir o ran y gyllideb a gofal cymdeithasol, yn enwedig Gwasanaethau Oedolion.

Cadarnhaodd y Cadeirydd fod y Pwyllgor yn edrych am sicrwydd bod y Gyfarwyddiaeth yn ymdrin â'r materion hyn yn y modd mwyaf priodol yn hytrach na phlymio'n ddwfn i'r materion neu'r achosion gweithredol.

Cyfeiriodd Aelod at fformat yr adroddiad a’i bod yn anodd deall a oedd y risgiau’n gwaethygu neu’n cael eu rheoli’n llwyddiannus ers yr adroddiad diwethaf. Byddai’n ddefnyddiol gweld yn glir unrhyw newidiadau i’r risg. Gofynnodd y Cadeirydd i'r Prif Swyddog - Cyllid, Perfformiad a Newid gyfeirio at hyn mewn adroddiadau yn y dyfodol.

Amlinellodd Pennaeth Gofal Cymdeithasol i Oedolion weithgarwch rheoleiddio yn y maes, y meysydd lle roedd pwysau yn enwedig yn y Gwasanaethau Gofal Cartref a Gwasanaethau Gwaith Cymdeithasol. Ychwanegodd y byddent yn cyflwyno adroddiad llawn i'r pwyllgor craffu ym mis Chwefror, fyddai'n rhoi mwy o sicrwydd a dyfnder i'r camau yr oeddent yn eu cymryd. Rhoddodd amlinelliad byr o'r risgiau a rhai o'r camau lliniaru mewn perthynas â diogelwch a lles oedolion sy'n wynebu risg.

Gofynnodd y Cadeirydd a fyddai modd i'r Pwyllgor weld Adroddiad Blynyddol Cyfarwyddwr y Gwasanaethau Cymdeithasol oherwydd y byddai hynny'n ddefnyddiol iawn ar gyfer sicrwydd. Atebodd Pennaeth Gofal Cymdeithasol i Oedolion fod yr adroddiad hwn wedi cael ei gyflwyno i’r Cyngor fel ei fod ar gael ar y wefan i bob Aelod o’r Pwyllgor ei weld. O ran trefniadau gweithio ar y cyd roedd blocio gwelyau yn broblem, roedd cael pecynnau gofal i unigolion i adael yr ysbyty yn fater arall a gofynnodd pa waith cydweithredol oedd yn mynd rhagddo rhwng CBS Pen-y-bont ar Ogwr, y Bwrdd Iechyd lleol ac eraill megis y sector gwirfoddol i geisio mynd i'r afael â'r mater hwn. Eglurodd Pennaeth Gofal Cymdeithasol i Oedolion eu bod yn gweithio law yn llaw â'r Bwrdd Iechyd yn y gwasanaethau oedolion ac amlinellodd sut roedd hyn yn gweithio ar draws y gwasanaeth.

Gofynnodd y Cadeirydd a oedd unrhyw gyfraniad gan y Bwrdd Iechyd mewn perthynas â dadansoddiad cost a budd o gadw pobl yn eu cartrefi eu hunain yn hytrach na mynd i mewn i sefyllfa ysbyty ac yna, unwaith y byddent i mewn, eu cael yn ôl allan. Atebodd Pennaeth Gofal Cymdeithasol i Oedolion fod safle yn CBS Pen-y-bont ar Ogwr a ddefnyddir gan y Tîm Adnoddau Cymunedol oedd yn cael ei ariannu ar y cyd drwy'r Bwrdd Iechyd a'r awdurdod lleol, oedd yn darparu ymyrraeth tymor byr i bobl i'w hatal rhag mynd i'r ysbyty ac ymateb cyflym i bobl sy'n dod allan o'r ysbyty. Nid oedd yn gallu bodloni’r lefelau presennol o alw ond roedd y mentrau yno i gael pobl yn ôl ar eu traed a chynorthwyo pobl i ddod allan o’r ysbyty.

Gofynnodd y Cadeirydd a oedd CBS Pen-y-bont ar Ogwr yn derbyn cyfran resymol o'r cyllid rhanbarthol? Atebodd Pennaeth y Gwasanaethau Oedolion fod Pen-y-bont ar Ogwr yn dda am nodi'n glir yr hyn oedd ei angen i gyflawni gwasanaethau integredig.

Gofynnodd Aelod pa ganran neu niferoedd o bobl oedd yn derbyn gofal yn eu cartrefi eu hunain. Atebodd Pennaeth y Gwasanaethau Oedolion eu bod yn cefnogi dros 2000 o bobl i ddiwallu eu hanghenion gofal a chymorth a'u bod yn darparu dros 9000 o oriau o gymorth gofal cartref i bobl.

Diolchodd y Pwyllgor i Bennaeth y Gwasanaethau Oedolion am ei chyfraniad a'r sicrwydd a roddwyd.

Cyfeiriodd y Prif Swyddog Cyllid, Perfformiad a Newid at yr ail risg oedd yn cael ei hystyried, sef gallu gwneud penderfyniadau cadarn am y tymor canolig i'r tymor hir sy'n gofyn am newid mewn gwasanaeth. Amlinellodd y fframwaith arferol ar gyfer gosod y gyllideb a pham, os oedd fframwaith yn ei le, nad oedd hynny wedi lleihau'r risg. Eglurodd y pwysau yn ystod y flwyddyn nas rhagwelwyd ac nas profwyd o'r blaen a sut y byddent yn cario ymlaen i'r flwyddyn nesaf. Nid oedd hyn yn unigryw i CBS Pen-y-bont ar Ogwr ac roedd pob awdurdod lleol yn wynebu pwysau aruthrol wrth symud ymlaen yn awr i'r flwyddyn nesaf. Atebodd y Cadeirydd fod hyn yn rhoi sicrwydd iddo ynglŷn â'r gweithdrefnau a'r polisïau.

Cyfeiriodd Aelod at y dyletswyddau anstatudol a gofynnodd a oedd unrhyw arweiniad yn cael ei roi ynglŷn â'r cyllidebau y byddai'n rhaid eu torri. Atebodd y Prif Swyddog Cyllid, Perfformiad a Newid fod materion yn ymwneud â gwasanaethau statudol ac anstatudol yn codi'n flynyddol. Roedd CBS Pen-y-bont ar Ogwr wedi tynnu dros £60 miliwn o'r Gyllideb Refeniw dros y 10/11 mlynedd diwethaf ac roedd yr holl wasanaethau wedi gweld gostyngiad mewn cyllid. Roedd yn anodd tynnu llinell rhyngddynt gan fod llawer o'r gwasanaethau anstatudol yn cefnogi'r gwasanaethau statudol. Roedd pob maes o'r gyllideb yn cael ei archwilio ac yn y pen draw roedd yn dibynnu ar risg ar draws yr holl wasanaethau. Roeddent yn edrych ar ddull un Cyngor yn y gyllideb hon. Atebodd yr Aelod ei fod yn falch bod risg yn cael ei hystyried ac na fyddent yn meddwl am dorri rhywbeth yn awr a allai gostio mwy o arian yn y tymor hir.

Gofynnodd Aelod a gâi ystyriaeth drylwyr ei rhoi i gau gwasanaeth unigol ac a oedd y broses bresennol yn gymorth i hyn. Atebodd y Prif Swyddog Cyllid, Perfformiad a Newid y gofynnwyd i bob gwasanaeth ystyried yr holl ddewisiadau wrth symud ymlaen. Roedd Cynllun Corfforaethol newydd wrthi'n cael ei ddrafftio fyddai'n edrych ar flaenoriaethau'r Cyngor fyddai'n cysylltu â'r gyllideb. Roedd penderfyniadau anodd i'w gwneud ac roedd setliad ariannol y flwyddyn nesaf yn mynd i fod yn anodd.

Cadarnhaodd Aelod fod hyn wedi cael ei drafod ar draws y fforymau a gofynnodd pa arweiniad gwleidyddol a roddwyd gan y Cabinet ar eu blaenoriaethau fel y gallent wneud rhywfaint o fodelu cyllideb yn gywir? Atebodd y Cadeirydd nad oedd hwnnw'n gwestiwn i'r Pwyllgor hwn gan mai'r cyfan yr oedd ei angen ar y Pwyllgor oedd sicrwydd bod gan CBS Pen-y-bont ar Ogwr y mecanweithiau sicrwydd cywir yn eu lle i gyflawni ei gyllideb. Cytunodd yr Aelod i fynd â'r cwestiwn i gyfarfod gwahanol.

PENDERFYNWYD: Bod y Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio yn nodi'r Asesiad Risg Corfforaethol 2022-23 (Atodiad A) a'r sylwadau a wnaed gan Bennaeth y Gwasanaethau Oedolion a'r Prif Swyddog, Cyllid, Perfformiad a Newid.

## 44. CYNNYDD YN ERBYN CYNLLUN YR ARCHWILIAD MEWNOL SEILIEDIG AR RISG 2022-23

Cyflwynodd Dirprwy Bennaeth y Gwasanaeth Archwilio Mewnol Rhanbarthol adroddiad yn rhoi datganiad sefyllfa ar y cynnydd oedd yn cael ei wneud yn erbyn cynllun yr archwiliad. Roedd y wybodaeth a ddarparwyd ar gyfer hanner cyntaf y flwyddyn ariannol hyd at 30 Medi 2022. Roedd naw adolygiad archwilio wedi cael eu cwblhau, pump â barn archwilio tra roedd un adroddiad wedi cael ei gyhoeddi fel drafft ac roedd 15 o archwiliadau yn mynd ymlaen ar y pryd. Rhoddwyd barn archwilio o sicrwydd sylweddol i dri o'r archwiliadau hynny a gwblhawyd a barn o sicrwydd rhesymol i'r ddau arall. Roedd yr archwiliadau oedd wedi eu cwblhau wedi gwneud cyfanswm o 13 o argymhellion hyd yma. Ychwanegodd fod y gwasanaeth archwilio mewnol rhanbarthol wedi llwyddo i recriwtio 7 aelod newydd o staff yn ddiweddar. Teimlid y byddai digon o waith wedi ei wneud erbyn diwedd y flwyddyn i roi barn archwilio gyffredinol.

Gofynnodd Aelod sut y gallai'r pwyllgor hwn fod yn sicr bod modd cyflawni'r cynllun gan roi digon o sylw i'r meysydd blaenoriaeth. Atebodd Dirprwy Bennaeth y Gwasanaeth Archwilio Mewnol Rhanbarthol ei bod yn anodd ffurfio barn ynghylch hynny ond y gallai fod o gymorth pe bai'n rhoi syniad o ble roeddent yn y cyfarfod nesaf.

Roedd Aelod yn bryderus ynghylch nifer yr archwiliadau oedd yn mynd ymlaen a gofynnodd ai dyna oedd y cynllun. Atebodd Dirprwy Bennaeth y Gwasanaeth Archwilio Mewnol Rhanbarthol fod gan Archwilwyr fel arfer ddyraniadau chwarterol ond yn yr achos hwn roedd yr Archwilwyr wedi cael dyraniadau chwe mis fel y gallai fod mwy o hyblygrwydd, felly, lle nodwyd, roedd archwiliadau'n parhau a gwaith wedi dechrau arnynt. Roedd hi'n hyderus y caent eu cwblhau ac roedd yn arwydd realistig o ble roeddent.

Gofynnodd y Cadeirydd a ellid cael dyddiad targed ar gyfer eu cwblhau yn y dyfodol.

| | |
|---|---|
| <u>PENDERFYNWYD:</u> | Bod y Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio yn nodi cynnwys yr adroddiad a'r cynnydd a wnaed yn erbyn Cynllun yr Archwiliad Mewnol Seiliedig ar Risg 2022-23. |

45. <u>MONITRO ARGYMHELLION</u>

Cyflwynodd Dirprwy Bennaeth y Gwasanaeth Archwilio Mewnol Rhanbarthol yr adroddiad Monitro Argymhellion oedd yn cynnwys yr holl argymhellion a wnaed gan y Gwasanaeth Archwilio Mewnol Rhanbarthol ers gweithredu'r feddalwedd newydd ar 1 Ebrill 2021. Awgrymodd na ddylai adroddiadau yn y dyfodol gynnwys ond argymhellion oedd heb eu cyflawni o'r blynyddoedd ariannol blaenorol ynghyd â'r argymhellion a wnaed yn y flwyddyn gyfredol. Esboniodd nad oedd yr argymhellion a wnaed yn yr adroddiadau sicrwydd cyfyngedig yn cael eu dilyn yn unigol ond eu bod yn cael eu hadolygu yn ystod archwiliad dilynol cynlluniedig o'r maes hwn a oedd i fod i ddechrau. Dangosai Atodiad A fod 109 o argymhellion wedi cael eu gwneud yn ystod 21/22, bod 59 wedi cael eu gweithredu, 10 wedi mynd heibio eu dyddiadau gweithredu ac yn weddill ac yn parhau i gael eu dilyn, tra roedd gan 39 ddyddiadau targed yn y dyfodol. Roedd un argymhelliad heb gael ei gytuno gan faes gwasanaeth perthnasol, ond cynigiodd y rheolwr esboniad pam fod hyn yn wir a derbyniwyd yr atebion a gyflwynwyd.

Dywedodd Dirprwy Bennaeth y Gwasanaeth Archwilio Mewnol Rhanbarthol fod saith o'r 13 argymhelliad a wnaed hyd yn hyn yn 22/23 wedi cael eu rhoi ar waith a bod gan chwech ddyddiad targed yn y dyfodol. Roedd y wybodaeth hon wedi cael ei thynnu o'r system feddalwedd archwilio a chroesawyd sylwadau ar y cynnwys a'r fformat a gyflwynwyd. Byddai adroddiad safonol yn cael ei gomisiynu i symleiddio'r broses pan fyddai adborth wedi cael ei dderbyn o fewn y Gwasanaeth Rhanbarthol.

Gofynnodd Aelod pam y gwahanwyd yr eitemau oedd yn weddill oddi wrth y dyddiad targed yn y dyfodol a beth yn union oedd y gwahaniaeth. Atebodd Dirprwy Bennaeth y Gwasanaeth Archwilio Mewnol Rhanbarthol mai'r eitemau oedd yn weddill oedd y rheiny lle y cytunwyd ar yr argymhellion gan y rheolwyr a bod dyddiad gweithredu targed wedi cael ei roi. Pan ofynnwyd am ddiweddariad ar ôl y dyddiad penodedig, nid oedd y Rheolwyr perthnasol wedi gorffen gweithredu'r argymhellion ac felly roeddent yn weddill. Roedd y rhai â dyddiadau targed yn y dyfodol yn rhai lle roedd y rheolwr wedi derbyn argymhelliad pan gafodd ei wneud ond nad oedd y dyddiad gweithredu wedi cael ei gyrraedd eto.

Gofynnodd Aelod, o ran y broses, pryd y cysylltwyd â'r swyddogion perthnasol am ddiweddariadau ynghylch cynnydd ac a gymerwyd yr ateb ar yr olwg gyntaf eu bod wedi cael eu cyflawni neu a ofynnodd y tîm am dystiolaeth neu fanylion ategol? Atebodd

Dirprwy Bennaeth y Gwasanaeth Archwilio Mewnol Rhanbarthol fod yr Archwilwyr yn ysgrifennu at y swyddogion perthnasol yn gofyn iddynt am eu hymateb. Cymerir yr ymatebion ar eu golwg gyntaf o ran yr argymhellion isel ac i'r lleill, yn dibynnu ar yr argymhelliad, byddai'r Archwilwyr yn gofyn am dystiolaeth o weithredu, yn gofyn cwestiynau mwy treiddgar neu'n cynnal rhai profion pe bai ganddynt fynediad at y system.

Gofynnodd Aelod a oedd unrhyw ddiweddariadau ar y Credydwyr - Archwiliad Data Cyflenwyr a gwblhawyd ym mis Ebrill gyda barn sicrwydd cyfyngedig. Atebodd Dirprwy Bennaeth y Gwasanaeth Archwilio Mewnol Rhanbarthol fod yr adran, ar adeg llunio'r adroddiad, mewn cysylltiad â chydweithwyr a chyflenwr y feddalwedd a'u bod yn y broses o weithredu'r argymhelliad. Roedd yr Archwilydd yn gwneud rhywfaint o brofion ar hyn o bryd ond cafwyd sicrwydd ar lafar fod yr argymhelliad hwn wedi cael ei roi ar waith.

Gwnaeth y Cadeirydd y sylw bod hwn yn adroddiad da. Yn ei farn ef, pan fyddai argymhellion wedi cael eu gweithredu, yna dylid eu tynnu oddi ar y bwrdd. Holodd ynghylch 2 archwiliad a oedd yn wag yn y tabl. Eglurodd Dirprwy Bennaeth y Gwasanaeth Archwilio Mewnol Rhanbarthol y cefndir i bob archwiliad ac y byddai'r wybodaeth ddiweddaraf yn y tabl pan gyflwynid yr adroddiad nesaf ym mis Ionawr. Gofynnodd Aelod a oedd yn iawn iddynt orfod disgwyl nes bod y cam olaf wedi cael ei gwblhau cyn sesiwn ddilynol ffurfiol? Cytunodd Dirprwy Bennaeth y Gwasanaeth Archwilio Mewnol Rhanbarthol fod hynny'n rhywbeth y gallent ei newid yn y broses.

<u>PENDERFYNWYD</u>: Bod y Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio

- yn ystyried y wybodaeth a ddarparwyd mewn perthynas â statws yr argymhellion a wnaed;
- wedi adolygu'r wybodaeth oedd yn yr adroddiad a rhoi adborth ar gynnwys a fformat y wybodaeth a ddarparwyd.

46. <u>BLAENRAGLEN WAITH 2022-23</u>

Cyflwynodd y Dirprwy Bennaeth Cyllid adroddiad yn nodi cyfrifoldebau a swyddogaethau'r Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio a'r rhestr o eitemau oedd i ddod gerbron y pwyllgor nesaf ac ar gyfer y pwyllgorau yn ystod y flwyddyn. O ran y Datganiad Cyfrifon yr oeddent wedi dweud o'r blaen y byddai'n dod i gyfarfod mis Tachwedd ond roedd problem genedlaethol ynghylch trin asedau seilwaith oedd yn dal dan drafodaeth. Roedd yn debygol bellach y byddai'r cyfrifon yn cael eu cyflwyno i gyfarfod y Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio oedd i'w gynnal ym mis Ionawr 2023 i'w cymeradwyo. Byddai'r adroddiad ar y Traciwr Rheoleiddio hefyd yn cael ei gyflwyno i gyfarfodydd Ionawr a Gorffennaf. Gofynnodd Dirprwy Bennaeth Cyllid a oedd unrhyw eitemau ychwanegol yr oedd ar y Pwyllgor eisiau eu cynnwys yn y flaenraglen waith.

Cyfeiriodd Aelod at y rhestr o'r holl ddogfennau oedd yn rhan o'r fframwaith llywodraethu da a gofynnodd am sicrwydd bod yr holl ddogfennau'n cael eu hadolygu gan gorff. Atebodd y Dirprwy Bennaeth Cyllid na allai ddweud yn bendant bod pob un ohonynt yn cael ei hadnewyddu'n flynyddol ond eu bod i gyd yn cael eu cymeradwyo gan y Cabinet neu'r Cyngor. Gofynnodd yr Aelod a ellid ysgrifennu hyn yn rhywle fel bod rhestr o'r dogfennau a pha graffu fu arnynt, i sicrhau bod llywodraethu priodol ar waith ar gyfer popeth. Cytunodd y Dirprwy Bennaeth Cyllid i gynnwys tabl i ddangos ymhle y cymeradwywyd y ddogfen a'r broses.

Dywedodd y Cadeirydd pe bai'r Datganiad Llywodraethu Blynyddol a'r Datganiad Cyfrifon ar gael yn gynt yna gellid trefnu cyfarfod arbennig gan fod yr agenda ar gyfer mis Ionawr eisoes yn eithaf prysur.

PENDERFYNWYD: Bod y Pwyllgor wedi ystyried ac yn cymeradwyo'r q flaenraglen waith a ddiweddarwyd ar gyfer 2022-23.

47. EITEMAU BRYS

Dim